# MANIFFESTO AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC Â CHANSER YNG NGHYMRU

YOUNG LIVES vs CANCER



Trawsnewid gofal a chymorth canser i blant a phobl ifanc

# CYFLWYNIAD

**Bob blwyddyn yng Nghymru, mae tua 180 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed yn cael diagnosis o ganser. Er gwaethaf datblygiadau meddygol, canser yw prif achos marwolaeth gysylltiedig â chlefyd ar gyfer y grŵp oedran hwn.**

Ac eto mae lleisiau a phrofiadau plant a phobl ifanc â chanser ar goll yn rhy aml o strategaethau a phenderfyniadau polisi cenedlaethol. Mae'r dull strategol presennol ar gyfer canser yng Nghymru yn canolbwyntio ar oedolion, ac mae yna ddiffyg data a monitro o ran profiadau a chanlyniadau ymhlith grwpiau oedran iau, yn ogystal â chamddealltwriaeth o ran eu hanghenion unigryw. O ganlyniad, maent yn wynebu anghydraddoldebau systemig o gymharu ag oedolion hŷn.

Mae rhai heriau – megis yr angen am ddiagnosis amserol a gweithlu canser cadarn – yn cael eu rhannu ag oedolion hŷn. Fodd bynnag, mae profiad plant a phobl ifanc yn wahanol, wrth iddynt wynebu canser yn ystod cyfnodau datblygu allweddol gyda'u bywydau cyfan o'u blaenau. Maent yn aml yn wynebu mathau gwahanol o ganser, hyd triniaeth hirach, llwybrau gofal gwahanol, effeithiau hirdymor unigryw, a heriau emosiynol ac ariannol sylweddol, gan gynnwys costau teithio i ganolfannau arbenigol.

P'un a ydynt yn byw yng Nghaerdydd neu Gaerfyrddin, Aberystwyth neu Aberdaron, mae eu hanghenion unigryw yn galw am ddull wedi'i deilwra er mwyn mynd ati o ddifri i wella canlyniadau a llesiant hirdymor, gan sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

## YMRWYMIADAU EIN MANIFFESTO:

Er mwyn trawsnewid gofal a chymorth canser i blant a phobl ifanc yng Nghymru, rydym yn galw ar bleidiau gwleidyddol i ymrwymo i'r canlynol:

- Dull strategol pwrpasol ar gyfer plant a phobl ifanc â chanser
- Cronfa Deithio i Gleifion Canser Ifanc
- Gwell profiad o gael diagnosis
- Cymorth cynhwysfawr yn ystod ac ar ôl y driniaeth

Wrth ddefnyddio pwerau datganoledig i'r eithaf, dylai pob plaid hefyd fod yn hyrwyddwyr plant a phobl ifanc â chanser yng Nghymru ar faterion a gedwir yn ôl.

# DULL STRATEGOL

**Mae'r Cynllun Gwella Canser presennol (2023-26) yn brin o gamau gweithredu penodol ar gyfer plant a phobl ifanc, er ei fod yn cydnabod eu hanghenion unigryw.**

Heb strategaeth hirdymor gynhwysfawr sy'n cynnwys cyfeiriad clir ar gyfer plant a phobl ifanc, ni allwn wneud cynnydd ystyriol tuag at well gofal, cymorth a chanlyniadau.

Mae anghenion gofal a chymorth canser plant a phobl ifanc yn wahanol i anghenion oedolion hŷn. Mae arnynt angen ac maent yn haeddu dull gweithredu pwrpasol sy'n cydnabod y gwasanaethau a'r llwybrau arbenigol y maent yn eu cyrchu, y mathau o ganser y maent yn eu hwynebu, a'r effeithiau seicosymdeithasol unigryw y maent yn eu profi.

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru weithio gyda phlant a phobl ifanc, y trydydd sector a'r GIG i ddatblygu dull strategol hirdymor ar gyfer gofal canser yng Nghymru sy'n cynnwys camau gweithredu pwrpasol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.**

Yn ddelfrydol trwy Strategaeth Canser Genedlaethol, rhaid i hyn fynd law yn llaw â gwella'r dirwedd ddata, sicrhau bod data cyson a phenodol ar gael ar gyfer plant a phobl ifanc, a gweithredu Arolwg Profiad Cleifion Canser Dan 16 Oed.

180 yn cael diagnosis bob blwyddyn

Effeithiau seico-gymdeithasol

Y clefyd sy'n lladd y mwyaf o blant a phobl ifanc



Effeithiau hirdymor

Costau ariannol

Gwasanaethau arbenigol

## Yr Ateb:

## Dull strategol ar gyfer plant a phobl ifanc

# CRONFA DEITHIO I GLEIFION CANCER IFANC

**Oherwydd natur arbenigol eu triniaeth a'u gofal canser, mae plant a phobl ifanc yn ymweld â rhwydwaith o ganolfannau arbenigol ledled y DU  ymhell o gartref. Nid oes ganddynt ddewis ond gwneud y teithiau hir i gyrraedd yno, a dod o hyd i'r arian i wneud hynny.**

Mae hyn yn unigryw i blant a phobl ifanc, sy'n teithio ddwywaith mor bell ac yn gwario ddwywaith cymaint ag oedolion hŷn sydd â chanser, ac mae'n arbennig o wir yng Nghymru, lle maent yn teithio bellaf ac yn gwario fwyaf yn y DU.

Dim ond un ganolfan driniaeth arbenigol sydd yng Nghymru, wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Ynghyd â daearyddiaeth unigryw Cymru, mae hyn yn golygu bod y mwyafrif yn aml yn teithio pellteroedd sylweddol, ac yn aml i Loegr, i gael eu triniaeth a'u gofal. Gall hyn fod yn rhwystr i fynediad.

Nid yw'r cymorth ariannol sydd ar gael 'nawr ar gael i bawb y mae arnynt ei angen, ac mae'r rhai sy'n gallu cael mynediad ato yn nodi ei fod ymhell o fod yn ddigon i dalu eu costau.

**Rhaid i Lywodraeth nesaf Cymru gyflwyno Cronfa Deithio i Gleifion Canser Ifanc i gefnogi eu costau teithio.**

Byddai hyn yn sicrhau nad oes yr un plentyn na pherson ifanc yn colli neu'n gohirio triniaeth a gofal oherwydd na all fforddio'r daith. Mae ein gwaith modelu yn amcangyfrif y byddai'r Gronfa'n costio £420,000 y flwyddyn yng Nghymru.




## Yr Ateb:
## Cronfa Deithio i Gleifion Canser Ifanc

# GWELL PROFIAD O GAEL DIAGNOSIS


**Mae llawer o blant a phobl ifanc sydd â chanser, a'u teuluoedd, yn nodi bod yn rhaid iddynt ymgysylltu dro ar ôl tro â gwasanaethau gofal iechyd cyn iddynt ystyried canser neu roi atgyfeiriad neu ddiagnosis.**

Yn rhy aml, rydym yn clywed am gamddiagnosisau, ymweliadau amryfal â meddygon, pryderon yn cael eu diystyru, neu ganser yn cael diagnosis mewn argyfwng. Mae llawer o blant, pobl ifanc a theuluoedd yn nodi bod angen iddynt eiriol drostynt eu hunain er mwyn cael y gofal cywir, a all fod yn arbennig o heriol.

Gall y profiadau hyn niweidio ymddiriedaeth yn y system a pherthnasoedd â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, yn ogystal ag oedi mynediad at driniaeth a gofal. Mae diagnosis cynnar yn bwysig i sicrhau triniaeth amserol ac effeithiol sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau posibl.

**Rydym yn galw ar Lywodraeth nesaf Cymru i wella'r profiad o gael diagnosis i blant a phobl ifanc sydd â chanser.**

Dylid cefnogi hyn trwy ddarparu addysg ac adnoddau i ofal iechyd rheng flaen er mwyn canfod ac atgyfeirio achosion lle'r amheuir canser, hyrwyddo ymwybyddiaeth o arwyddion a symptomau, cynnwys plant a phobl ifanc mewn mentrau diagnosis cynnar, ac ymateb i'w profiadau.



**Ymweliadau amryfal â gwasanaethau gofal iechyd cyn cael diagnosis**

**Mae diagnosis cynnar yn allweddol i driniaeth amserol ac effeithiol**



**Yr Ateb:**
**Gwell profiad o gael diagnosis**

# CYMORTH CYNHWYSFAWR


**Gall diagnosis o ganser effeithio ar bob rhan o fywyd plentyn neu berson ifanc – emosiynol, cymdeithasol, addysgol, ariannol ac ymarferol. Mae'r teulu cyfan yn teimlo'r effaith, y straen a'r heriau, nid yn unig yn ystod y driniaeth, ond wedi hynny.**

Gall cymorth ddod gan amrywiaeth o ddarparwyr, gan gynnwys gwasanaethau cyffredinol y GIG, seico-oncoleg arbenigol, a'r sector elusennol – gan gynnwys Young Lives vs Cancer, gofal cymdeithasol a gwasanaethau elusennol eraill.

Ac eto mae'r cymorth sydd ar gael, gan wasanaethau statudol fel arfer, yn rhy aml yn cael ei bennu gan godau post, nid anghenion. Yn benodol, gall cymorth ar gyfer effeithiau hirdymor canser fod yn anghyson ar ôl i'r driniaeth ddod i ben, pan fydd llawer yn cael trafferth gydag effeithiau corfforol, emosiynol, ariannol a chymdeithasol hirhoedlog canser.

**Dylai Llywodraeth nesaf Cymru sicrhau bod plant a phobl ifanc â chanser a'u teuluoedd yn gallu cael mynediad at gymorth holistaidd, cynhwysfawr yn ystod ac ar ôl y driniaeth.**

Dylai llwybrau ac arferion triniaeth ddarparu atgyfeiriadau a mynediad at y gwasanaethau hyn ochr yn ochr â'u gofal corfforol lle a phryd bynnag y bydd arnynt eu hangen.




**Yr Ateb:**
**Cymorth cynhwysfawr yn ystod ac ar ôl y driniaeth**

# MAE PLANT A PHOBL IFANC Â CHANSER NGHYMRU YN HAEDDU GWELL

Mae hyn yn golygu dull strategol sy'n diwallu eu hanghenion unigryw, Cronfa Deithio i Gleifion Canser Ifanc, gwell profiad o gael diagnosis sy'n canfod arwyddion a symptomau'n gynnar, a chymorth cynhwysfawr wedi'i deilwra yn ystod ac ar ôl y driniaeth.

Mae cyflawni'r weledigaeth hon yn golygu gweithio mewn partneriaeth – â phlant a phobl ifanc, eu rhwydweithiau cymorth, y GIG, a sefydliadau trydydd sector megis Young Lives vs Cancer. Mae'n golygu dangos arweinyddiaeth, defnyddio pwerau datganoledig i'r eithaf, a hyrwyddo anghenion plant a phobl ifanc â chanser ar faterion a gedwir yn ôl.

**Nawr yw'r amser i fynd ati o ddifri i drawsnewid profiadau, canlyniadau a dyfodol plant a phobl ifanc â chanser yng Nghymru.**

I gael rhagor o wybodaeth, cyfarfodydd neu bapurau briffio ynghylch y dystiolaeth a'r wybodaeth sy'n sail i'r galwadau hyn, cysylltwch â:
**campaigns@younglivesvscancer.org.uk**

YOUNG LIVES vs CANCER

Mae Young Lives vs Cancer yn enw gweithredol ar gyfer CLIC Sargent Cancer Care for Children. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1107328) a'r Alban (SCO39857). Swyddfa gofrestredig: Llawr 4ydd, Whitefriars, Lewins Mead, Bristol, BS1 2NT